JONES, JOHN (EMLYN) ('Ioan Emlyn'; 1818 - 1873), gweinidog gyda'r Bedyddwyr, bardd a llenor

Enw: John (Emlyn) Jones
Ffugenw: Ioan Emlyn
Dyddiad geni: 1818
Dyddiad marw: 1873
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Bedyddwyr, bardd a llenor
Maes gweithgaredd: Crefydd; Eisteddfod; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth; Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yng Nghastellnewydd Emlyn. Prentisiwyd ef gydag oriadurwr yng Ngherrighywel (sgrifennodd ar hanes y lle yn *Golud yr Oes*, 1863), a bu gyda Chymreigyddion y Fenni (1838) a Chymreigyddion Llangynidr. Symudodd i Gaerdydd, i swyddfa'r *Principality* - yno y bu â rhan yng nghyfieithu esboniad Gill.

Dechreuodd bregethu ar adeg anhysbys (y mae'n wir yn hynod anodd cael hyd i ddyddiadau pendant yn ei yrfa), a bu'n weinidog ym Mhontypridd, Pen-y-cae ('Ebbw Vale'), Caerdydd, Merthyr Tydfil, a Llandudno, gan ddychwelyd wedyn i Ben-y-cae, lle y bu farw fis Ionawr 1873. Yr oedd yn llenor toreithiog; bu'n olygydd *Y Bedyddiwr* a *Seren Cymru*, a dug allan argraffiad helaethedig o *Hanes Prydain Fawr* Titus Lewis. Cyhoeddodd *Gramadeg Cerddorol*, 1860; *Tiriad y Ffrancod ym Mhencaer*, 1856; a llyfrau eraill. Ymgymerth â dal ymlaen ar *Y Parthsyllydd*, gwaith daearyddol a adewsid heb ei orffen gan John Jenkins o'r Hengoed a Thomas Williams, ' Gwilym Morgannwg ', a daliodd ati hyd ei farw - cwpláwyd y gwaith gan J. Spinther James yn 1875.

Enillodd y gadair yn eisteddfod genedlaethol Dinbych (1860) ac mewn eisteddfod daleithiol ym Môn (1871), a chyhoeddodd yn 1871 awdlau anfuddugol a anfonasai i eisteddfodau eraill. Ond diamau mai ei gân ' Bedd y Dyn Tylawd ' sydd debycaf o gadw ei enw'n fyw. Cafodd radd LL.D. gan Brifysgol Glasgow yn 1863.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Y Gwyddoniadur Cymreig (1889–96), ail arg., x, 652-3

Y Traethodydd, 1903, 434

Y Geninen, Mawrth 1893, 70

A roll of the graduates of the University of Glasgow from 31st December, 1727 to 31st December, 1897 With short

biographical notes (Glasgow 1898), 300

Delweddau

LlGC: Memorial of John Emlyn Jones (Ioan Emlyn) at Glyn Ebwy

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 16950318

Wikidata: Q20733348

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu